Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB Y PERSON

Teitl y Swydd	Pennaeth Mabwysiadu Arloesedd - Digidol a Deallusrwydd Artiffisial
Lleoliad	Bae Caerdydd
Yn atebol i'r	Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd
Y rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol i ddeiliad y swydd	3
Band Cyflog	3
Cyflog	£55,000 y flwyddyn
Cyfnod	Parhaol

PRIF BWRPAS Y SWYDD:

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (LSHW) yn sbarduno newid systematig a thrawsnewidiol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu dyfodol gwell i bobl Cymru. Ein rôl yw ysbrydoli arloesi a chydweithio rhwng diwydiant, iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydliadau ymchwil er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a theuluoedd ym mhob cwr o'r wlad.

I sbarduno newid, rydyn ni'n gweithio gyda GIG Cymru er mwyn deall problemau a chanfod sut gall arloesi helpu i ddarparu gwell gofal. Rydyn ni'n helpu busnesau i greu atebion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n creu cysylltiadau sy'n galluogi pobl a sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

Ein cenhadaeth yw cyflymu'r broses o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol i sicrhau gwell iechyd a lles. Ein gweledigaeth yw sicrhau mai Cymru yw'r lle sy'n cynnig dewis ac arloesedd ym maes iechyd, gofal a lles.

Rydym yn chwilio am rywun eithriadol i ymuno â'n tîm fel Pennaeth Mabwysiadu Arloesedd - Digidol a Deallusrwydd Artiffisial sy'n rhannu ein gwerthoedd – tegwch, urddas a pharch – ac sy'n gallu gweithio gyda ni i'n helpu i adeiladu ar ein llwyddiannau, ac i sicrhau bod ein gweledigaeth uchelgeisiol yn cael ei gwireddu.

Bydd y Pennaeth Mabwysiadu Arloesedd - Digidol a Deallusrwydd Artiffisial yn atebol i'r Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd. Mae hon yn rôl newydd a fydd yn datblygu, yn arwain ac yn mesur rhaglen waith i hwyluso'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu arloesedd digidol a deallusrwydd artiffisial yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn:

- Gwella canlyniadau iechyd a lles i bobl yng Nghymru;
- Gwella effeithlonrwydd a gwerth yn y system iechyd a gofal yng Nghymru; a
- Hybu datblygiad economaidd drwy dwf busnes a chreu swyddi.

Fel aelod allweddol o dîm Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, bydd y Pennaeth Mabwysiadu Arloesedd - Digidol a Deallusrwydd Artiffisial yn arwain y tîm i gyflwyno rhaglen Ecosystem Iechyd Digidol Cymru, sef cydweithrediad rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a ariennir drwy Raglen Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg Llywodraeth Cymru a meithrin ymgysylltiad gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, timau arbenigol a gofal cymdeithasol ar draws GIG Cymru i lunio a chyflwyno rhaglen waith i gefnogi anghenion y sector, gan ganolbwyntio ar wella ffyrdd o gasglu data, cefnogi diagnosteg gynnar, a gweithdrefnau llawfeddygol.

Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau i wneud y canlynol:

- Canfod a datblygu arloesedd digidol a deallusrwydd artiffisial yn y diwydiant sy'n mynd i'r afael â heriau iechyd a gofal ac anghenion clinigol nad ydynt wedi'u diwallu
- Hyrwyddo arloesedd digidol a deallusrwydd artiffisial o fewn GIG Cymru
- Cynnull a chyd-drefnu rhanddeiliaid i hybu rhaglenni digidol a deallusrwydd artiffisial cenedlaethol ac i roi arloesedd ar waith

Bydd deiliad y swydd yn cefnogi'r Tîm Rheoli Gweithredol i wneud yn siŵr bod gweithgareddau'n cyd-fynd â Ffyniant i Bawb, y Strategaeth Genedlaethol; Cynllun Cymru Iachach 2018; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); a'r egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus sy'n rhan hanfodol o Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2018.

Oherwydd bod hon yn rôl newydd, bydd cyfrifoldebau a dyletswyddau penodol y swydd yn datblygu'n organig yn y tymor byr. Bydd y Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd a deiliad y swydd yn cytuno ar ddisgrifiad swydd terfynol ar adeg briodol.

Bydd llwyddiant y rôl yn cael ei asesu yn erbyn amcanion unigol. Caiff perfformiad hefyd ei fesur yn erbyn cyflawniad cyffredinol y cynllun gweithredol / busnes yn erbyn gofynion Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Helpu'r Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd i adeiladu a chynnal perthnasoedd cryf a chredadwy â rhanddeiliaid perthnasol yn y diwydiant ac mewn sectorau ehangach yng Nghymru, y DU a thu hwnt er mwyn meithrin diwylliant o bartneriaeth a chydweithio.

- Hyrwyddo bwriad a gwasanaethau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar draws y diwydiant , iechyd a gofal cymdeithasol a'r byd academaidd yng Nghymru, y DU a thu hwnt er mwyn cynhyrchu ffrwd o gyfleoedd digidol a deallusrwydd artiffisial.

- Gweithio gyda thîm ehangach Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i ddatblygu a chynnal banc gwybodaeth ar gyfer y farchnad, banc y gellir ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau, cynlluniau a chynigion ariannu yn y dyfodol.

Rheoli Pobl

- Ysbrydoli ac arwain tîm i weithio ar y cyd i gyflawni gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion y Cwmni.

- Rheoli, cymell, hyfforddi, mentora, cefnogi a datblygu is-weithwyr uniongyrchol er mwyn creu ymdeimlad cryf o falchder, cydweithrediad, perchnogaeth, atebolrwydd, safonau uchel o ran ymddygiad, a datblygiad proffesiynol parhaus.

- Cynnal cyfarfodydd adolygu un-i-un rheolaidd, gan gynnwys gwerthusiadau bob chwe mis i gefnogi datblygiad a monitro perfformiad yn erbyn amcanion strategol ac unigol a dangosyddion perfformiad allweddol. Gweithredu arferion, prosesau a pholisïau AD y cwmni er mwyn cefnogi iechyd a diogelwch a lles y tîm a sicrhau y cedwir atynt.

- Cynllunio a rheoli'r adnoddau sy'n ofynnol i fodloni blaenoriaethau cyflawni mewn modd effeithiol, gan gynnwys recriwtio a chynefino is-weithwyr uniongyrchol.

- Gweithio gydag arddull rheoli cydweithredol a meithrin perthnasoedd gwaith agos rhwng holl weithwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb o fewn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac ymysg ei bartneriaid ehangach.

Rheoli a Chyflawni

- Adnabod ac adrodd ar heriau a chyfleoedd allweddol digidol a deallusrwydd artiffisial i hysbysu a chynhyrchu cynlluniau cyflenwi tymor byr (12 mis), tymor canolig, a hirdymor ar gyfer rhaglen mabwysiadu arlosedd y Cwmni a rhaglen Ecosystem Iechyd Digidol Cymru.

- Gweithredu'n strategol gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn atebol am gynhyrchu cyfleoedd arloesedd digidol a deallusrwydd artiffisial drwy system o heriau'r diwydiant, er mwyn sicrhau twf economaidd a mynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal.

- Cyflawni targedau yn ymwneud â thwf busnes a datblygu arloesedd ar gyfer ei fabwysiadu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

- Atebol am weithredu cynlluniau ar gyfer prosiectau mabwysiadu arloesedd unigol sy'n cyflawni nodau strategol a dangosyddion perfformiad allweddol y Cwmni; ac ar gyfer sicrhau y cesglir ynghyd y sgiliau, yr arbenigedd a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen ar bob tîm prosiect i gyflawni arloesedd sy'n barod i'w fabwysiadu.

- Atebol am bennu cyfleoedd ariannu grant a rhai arloesedd digidol a deallusrwydd artiffisial eraill perthnasol; arwain ar weithgareddau datblygu bidiau digidol a deallusrwydd artiffisial penodol, a chymryd rhan yng ngweithgareddau datblygu bidiau ehangach y tîm.

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu proses rheoli mabwysiadu arloesedd i werthuso a chyflwyno achos cadarn dros fabwysiadu a fydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) chwilota a sganio'r gorwel, cyfleoedd brysbennu, asesu arbenigol, cefnogaeth y diwydiant, casglu data, casglu gwybodaeth, a chyfeirio.

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu proses cefnogi busnes effeithiol i sicrhau galluogrwydd uwchraddio'r diwydiant, ar sail adnabyddiaeth fanwl o seilwaith twf busnes gwyddorau bywyd yng Nghymru, gan gynnwys eiddo, cyllid a sgiliau.

- Arwain ac atgyfeirio cyfleoedd busnes at raglenni ehangach Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, fel Cyflymu.

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal map o'r diwydiant gwyddorau bywyd i randdeiliaid er mwyn cefnogi pob gweithgaredd.

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu 'banc gwybodaeth' sy'n cynnwys dadansoddiadau, deallusrwydd a gwybodaeth am sectorau.

- Cynhyrchu a chyflenwi strategaethau ymgysylltu â'r diwydiant digidol a deallusrwydd artiffisial ar-lein ac all-lein ar y cyd â'r tîm Marchnata, Cyfathrebu a Digwyddiadau; strategaethau sy'n nodi ac yn denu atebion cynhenid a byd-eang i fynd i'r afael â phroblemau a chyfleoedd iechyd a gofal.

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Mewnfuddsoddiad i gynhyrchu a gweithredu strategaeth mewnfuddsoddi sy'n nodi ac yn denu atebion Digidol a Deallusrwydd Artiffisial byd-eang i fynd i'r afael â phroblemau a chyfleoedd iechyd a gofal.

- Datblygu a darparu amserlen digwyddiadau digidol a deallusrwydd artiffisial blynyddol ar y cyd â'r tîm Marchnata, Cyfathrebu a Digwyddiadau.

- Atebol am gasglu, monitro ac adrodd ynghylch gwireddu buddion, a chydymffurfio â gofynion monitro, adrodd, casglu tystiolaeth a chadw cofnodion, ac amserlenni ar gyfer rhaglenni.

Cyfrifoldebau Ariannol

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd i ddatblygu cyllideb flynyddol a rheoli gwariant adrannau yn unol â'r gyllideb.

- Sicrhau y rheolir cyflenwyr yn effeithiol ac effeithlon. Bod yn atebol am benodi a rheoli ymgynghorwyr / cyflenwyr allanol - monitro'r gwaith darparu yn erbyn y contract, ac ansawdd a chost-effeithiolrwydd hynny.

- Craffu ar werth rhaglenni a phrosiectau a'i dracio'n drylwyr; mynd ati'n barhaus i sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd.

- Gwneud yn siŵr bod gwariant yn cydymffurfio â pholisïau'r cwmni a gofynion rheoleiddiol.

Rheoli Perfformiad, Risg a Chydymffurfedd

- Casglu data perfformiad a chadw dogfennau perthnasol prosiectau. Gweithio gyda'r tîm i wneud yn siŵr bod data perfformiad a dogfennau prosiectau'n gadarn, yn gywir ac yn destun adroddiadau o fewn amserlenni gofynnol.

- Gweithio gyda'r tîm i nodi ac adolygu'r cynnydd yn erbyn cerrig milltir, a monitro'r cynnydd yn erbyn cynlluniau. Gweithio gyda'r tîm Marchnata a Chyfathrebu i hyrwyddo llwyddiannau.

- Ystyried y fframweithiau llywodraethu, risg, cydymffurfio a rheoli ar draws pob gweithgaredd a helpu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau i ddatblygu a chynnal y fframweithiau hyn. Gwneud yn siŵr bod y tîm a'r rheolwyr gweithredol yn deall effaith risgiau/problemau rhaglenni'n glir, a bod atebion priodol yn cael eu nodi a'u rhoi ar waith. Uwchgyfeirio problemau difrifol neu strategol i'r Bwrdd/Pwyllgor Archwilio a Thaliadau fel y bo'n briodol.

- Cynnal trefniadau rheolaeth fewnol, prosesau a rheolaethau ariannol cadarn sy'n cydymffurfio ag egwyddorion rheoli'r cwmni ac sy'n bodloni ei rwymedigaethau contractiol a chyfreithiol.

- Cynhyrchu adroddiadau yn ôl y gofyn i'r rheolwyr gweithredol, y Bwrdd, ARAC, pwyllgorau a grwpiau mewnol ac allanol, Llywodraeth Cymru, Gweinidogion neu unrhyw randdeiliad arall.

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd a'r Prif Swyddog Gweithredol i hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth, gweledigaeth a nodau'r cwmni.

- Cynnal safon uchel o ran cywirdeb yng nghyswllt materion ariannol, personél a phroffesiynol, cynnal cysylltiadau da â chydweithwyr a phartneriaid allanol a gweithredu'n unol â chod ymddygiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

MANYLEB Y PERSON

NODWEDDION	HANFODOL	DYMUNOL
GWYBODAETH	Y diwydiant gwyddorau bywyd yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol, a Digidol a Deallusrwydd Artiffisial yn benodol.	Deall y fframwaith a'r cyd-destun gwleidyddol sy'n berthnasol i gwmni sy'n gweithredu fel "corff hyd braich" ar ran Llywodraeth Cymru
	Cyfleoedd a heriau yn y sector iechyd a gofal, yn benodol y rhai a wynebir gan GIG Cymru	Y ffynonellau cyllid sydd ar gael yn y DU, yr UE ac yn rhyngwladol ar gyfer arloesi ym maes iechyd a gofal
	Prosesau a rhwystrau mabwysiadu arloesedd yn y GIG	

	Gweithdrefnau caffael mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol	
	Technolegau arloesi a chyfleoedd clinigol sy'n dod i'r amlwg ym maes Digidol a Deallusrwydd Artiffisial	
	Proses cynhyrchu bidiau a thirwedd ariannu arloesedd ym maes gofal iechyd yn y DU, Ewrop a thu hwnt	
PROFIAD	Profiad o weithio yn y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru a/neu'r DU	Profiad o weithio yn y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru a/neu'r DU gan arbenigo mewn arloesedd digidol a/neu ddeallusrwydd artiffisial
	Rhaglenni a phrosiectau llywodraeth ranbarthol neu genedlaethol arweiniol	Defnydd ymarferol o fethodoleg rheoli rhaglenni a phrosiectau
	Cynhyrchu a gweithredu cynlluniau busnes a gweithredol / cyflawni i gyflawni nodau strategol	
	Rheoli, annog a datblygu tîm i gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a nodau strategol	
	Cynnull, arwain a chyfrannu at brosiectau cydweithredol rhwng sawl parti	Cynnull, arwain a chyfrannu at brosiectau cydweithredol rhwng sawl parti mewn lleoliad iechyd, gofal cymdeithasol a/neu ddiwydiant
	Sicrhau cyllid o ffynonellau cyhoeddus	Sicrhau cyllid arloesedd ym maes gofal iechyd o ffynonellau cyhoeddus
	Rheoli cyllidebau a chostau	
	Rheoli Risg	

SGILIAU A GALLU	Llawn cymhelliant ac ymroddedig i gyflawni canlyniadau ac effeithiau - hyrwyddo ac yn arwain y gwaith o gyflawni amcanion tîm	
	Arweinyddiaeth effeithiol - yn arwain drwy esiampl ac yn ymddwyn fel model rôl o ran ymddygiad a phroffesiynoldeb	
	Gallu gwneud penderfyniadau cadarn – yn alluog mewn asesu gwybodaeth, ymddygiad a sefyllfaoedd er mwyn gwneud penderfyniadau amserol, ystyrlon sydd wedi'u hystyried yn dda	
	Sgiliau rhyngbersonol effeithiol - y gallu i ddylanwadu, trafod a gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl randdeiliaid	
	Sgiliau cyfathrebu effeithiol – gallu bod yn ystyriol a diplomataidd wrth gyfathrebu negeseuon, yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol	Rhugl yn y Gymraeg
	Gallu effeithiol o ran datrys problemau – yn alluog mewn adnabod, wynebu a datrys problemau	
	Gallu defnyddio pecynnau meddalwedd Windows, rheoli prosiectau a systemau CRM	

GOFYNION ERAILL

- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus basio gwiriad diogelwch datgelu a gwahardd.
- Yn barod i weithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol y cwmni.
- Ymroddiad i weithio'n unol â gwerthoedd y cwmni.
- Gallu gweithredu ar ei liwt ei hun wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol a llawn ar ei ben ei hun.

- Trwydded yrru ddilys a'i gludiant ei hun. Fodd bynnag, fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gallu gwneud trefniadau teithio addas o fath arall.

Nid bwriad y disgrifiad swydd hwn yw cynnwys pob agwedd ar y swydd, ond yn hytrach rhoi diffiniad clir o bwrpas, cyfrifoldebau a dimensiynau sylfaenol y rôl.

Ar ben yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiad swydd hwn, disgwylir i ddeiliad y swydd gyflawni pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo ef/hi.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu a meithrin ei weithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan unigolion sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys heb ystyried rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, statws priodasol neu feichiogrwydd a mamolaeth.

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

JOB DESCRIPTION & PERSONAL SPECIFICATION

Job Title	Head of Innovation Adoption - Digital and AI
Location	Cardiff Bay
Responsible to	Innovation Adoption Director
Direct Reportees	3
Salary Band	3
Salary	£55,000 pa
Term	Permanent

MAIN PURPOSE OF ROLE:

Life Sciences Hub Wales (LSHW) drives transformational, systematic change in the health and social care sectors to create a better future for the people of Wales. Our role is to inspire innovation and collaboration between industry, health and social care, and research organisations to make a positive difference to people and families across the nation.

As a catalyst for change, we work with NHS Wales to understand issues and identify how innovation can help deliver better care. We support businesses to create health and social care solutions. We create connections which enable people and organisations to work in partnership.

Our mission is to accelerate the development and adoption of innovate solutions for better health and wellbeing. Our vision is to make Wales the place for choice and health, care and wellbeing innovation.

We are looking for someone exceptional to join our team as Head of Innovation Adoption - Digital and AI who shares our values of fairness, dignity and respect and can work with us to build upon our achievements and ensure our ambitious vision becomes a reality.

Reporting to the Innovation Adoption Director, the Head of Innovation Adoption - Digital and AI is a new role which will develop, lead and measure a programme of work to facilitate the development and adoption of digital and artificial intelligence (AI) innovation in the health and social care sectors in Wales to:

- Improve health and wellbeing outcomes for people in Wales;
- Improve efficiency and value within the Welsh health and care system; and
- Drive economic development, through business growth and job creation.

As a key member of the Life Sciences Hub Wales team, the Head of Innovation Adoption - Digital and AI will lead the team to deliver the Digital Health Ecosystem Wales programme, a collaboration between the Life Sciences Hub Wales and the NHS

Wales Informatics Service (NWIS) funded through the Welsh Government's Efficiency through Technology Programme and build engagement with NWIS, social care and specialist teams across NHS Wales to shape and deliver a programme of work to support the needs of the sector, with a focus on improving data capture, supporting early diagnostics, and surgical procedure.

This will include a range of activities to:

- Find and develop digital and AI innovation from industry which address health and care challenges and unmet clinical needs
- Promote digital and AI innovation within NHS Wales
- Convene and orchestrate stakeholders to drive forward national digital and AI programmes and innovation deployment

The post holder will support the Executive Management Team to ensure activity alignment with Prosperity for All, the National Strategy, Healthier Wales Plan 2018, Well-being of Future Generations (Wales) Act and the Prudent Healthcare principles that form an integral part of the Parliamentary Review of Health and Social Care 2018.

As a new role, the specific duties and responsibilities will develop organically in the short term. The Innovation Adoption Director and the post holder will agree a final job description at an appropriate time.

The success of the role will be assessed against individual objectives. Performance will also be judged against the overall delivery of the operational / business plan against the requirements of the Welsh Government remit Letter.

MAIN DUTIES & RESPONSIBILITIES:

Stakeholder Engagement

- Support the Innovation Adoption Director to build and maintain strong, credible relationships with relevant industry and wider sector stakeholders in Wales, the UK and internationally to foster a culture of partnership and collaboration.

- Promote the intent and services of LSHW across industry, health and social care and academia in Wales, the UK and Internationally to generate a pipeline of digital and AI project opportunities.

- Work with the wider LSHW team to develop and maintain a knowledge bank of market intelligence that can be utilised in support of future projects, plans and funding bids.

People Management

- Inspire and lead a team to work collaboratively to achieve the Company's vision, mission, values and objectives.

- Manage, motivate, coach, mentor, support and develop direct reportees to create a strong sense of pride, co-operation, ownership, accountability, high standards of conduct and continuous professional development.

- Conduct regular one-to-one review meetings, including half-year appraisals to support development, monitor performance against strategic and individual objectives and key performance indicators. Implement the company HR policies, processes and practices to support the health and safety and wellbeing of the team and that they are adhered to.

- Effectively plan and manage the resources required to meet delivery priorities, including recruitment and induction of direct reportees.

- Work in a collaborative management style and foster close working relations between all LSHW employees.

- Promote diversity, inclusion and equality within LSHW and wider partners.

Management and Delivery

- Identify and report on the key challenges and opportunities of digital and AI to inform and produce the Company's short (12-month), medium and long-term delivery plans for the Company's innovation adoption programme and Digital Health Ecosystem Wales programme.

- Operating strategically with Health and Social care, accountable for the generation of digital and AI innovation opportunities through a system of industry challenges to deliver economic growth and address health and care needs.

- Deliver targets relating to business growth and the development of innovation for adoption across health and social care in Wales

- Accountable for the execution of individual innovation adoption project plans which deliver the Company's strategic aims and KPIs; and for ensuring that the appropriate knowledge, expertise and skills required for each project team to deliver an adoption ready innovation is assembled.

- Accountable for identifying grant and other relevant digital and AI innovation funding opportunities; leading on specific digital and AI bid development activities and participating in wider team bid development activities.

- Support development of the innovation adoption management process to evaluate and present a robust case for adoption to include (but not limited to) horizon scanning scouting, triaging opportunities, expert assessment, industry support, data collection, information gathering and signposting.

- Support development of an effective business support process to secure industry scale-up capability, based on familiarity with the Welsh life sciences business growth infrastructure including premises, funding and skills.

- Guide and refer business opportunities to wider LSHW programmes, such as Accelerate.

- Support development and maintenance of a life sciences industry stakeholder map to support all activities.

- Support development of a 'knowledge bank' of information, analysis, intelligence and sector information.

- Produce and deliver online and offline digital and AI industry engagement strategies in conjunction with the Marketing, Communications and Events team which identify and attract indigenous and global solutions to meet health and care issues and opportunities.

- Support the Inward Investment Director to produce and implement an inward investment strategy which identifies and attracts global Digital and AI solutions to meet health and care issues and opportunities.

- Develop and deliver an annual schedule of digital and AI events in conjunction with the Marketing, Communications and Events team.

- Accountable for capturing, monitoring and reporting benefits realisation, and compliance with programme monitoring, reporting, evidence gathering and record keeping, requirements and timescale.

Financial Responsibilities

- Work with the Innovation Adoption Director to develop an annual budget and manage departmental spend within the budget.

- Ensure effective and efficient supplier management. Accountable for the appointment and management of external consultants / suppliers - monitoring the delivery, quality and cost-effectiveness against contract.

- Rigorously scrutinise and track value of programmes and projects; constantly strive for value for money and efficiency.

- Maintain spending compliance with company policies and regulatory requirements.

Performance, Risk and Compliance Management

- Capture performance data and maintain relevant project documentation. Work with team to ensure performance data and project documentation is robust, accurate and reported within mandated timescales.

- Work with the team to identify and review progress against milestones and monitor progress against plans. Work with the Communication and Marketing team to promote successes.

- Consider governance, risk, compliance and control frameworks across all activities and support Operations Director to develop and maintain same. Ensure that the impact of programme risks/issues are clearly understood by team and executive management and that appropriate resolutions are identified

and implemented. Escalating serious or strategic issues to Board/Audit and Remuneration Committee as appropriate.

- Maintain robust internal management, processes and financial controls which comply with the company's governing principles and satisfy it's legal and contractual obligations.

- Produce reports as required for executive management, Board, ARAC, internal and external committees and groups, Welsh Government, Ministers or any other stakeholder.

- Support the Innovation Adoption Director and CEO, to promote and support the achievement of the company's mission, vision and goals.

- Maintain a high standard of probity in professional, personnel and financial matters, maintaining good relations with colleagues and external partners and to act in accordance with the LSHW's code of conduct.

PERSONAL SPECIFICATION

ATTRIBUTES	ESSENTIAL	DESIRABLE
KNOWLEDGE	Life sciences industry in Wales and the UK generally and Digital and AI specifically	An appreciation of the political context and framework for a company operating as a "arms-length body" of the Welsh Government
	Opportunities and challenges within the health and care sector, specifically faced by NHS Wales	UK, EU and international funding sources available for health and care innovation
	Innovation adoption processes and barriers within the NHS	
	Procurement procedures within a health and social care context	
	Emerging innovation technologies and clinical opportunities in Digital and AI	
	UK, European and international healthcare innovation funding landscape and bid production process	
EXPERIENCE	Experience of working within the life sciences sector in Wales and/or the UK	Experience of working within the life sciences sector in Wales and/or the UK specialising in digital and/or AI innovation

	Leading regional or national government programmes and projects	Practical application of programme and project management methodology
	Production and implementation of business and operational / delivery plans to achieve strategic aims	
	Managing, motivating and developing a team to deliver KPIs and strategic aims	
	Convening, leading and participating in multi-party, collaborative projects	Convening, leading and participating in multi-party, collaborative digital innovation projects in a health, social care and/or industry setting
	Securing funding from public sources	Securing healthcare innovation funding from public sources
	Budget management and cost control	
	Risk Management	
SKILLS & ABILITIES	Driven and dedicated to achieving outcomes and impacts - promotes and leads the achievement of team objectives	
	Effective leadership - leads by example and acts as a role model in terms of behaviour and professionalism	
	Strong decision maker – skilled at assessing information, behaviours and situations to make timely, considered and well-judged decisions	
	Effective interpersonal skills - ability to influence, negotiate and work in partnership with all stakeholders	
	Effective communication skills – ability to demonstrate tact and diplomacy when communicating messages, listens and responds	Fluent in the Welsh Language

	appropriately in formal and informal situations	
	Effective problem-solving ability – skilled at identifying, confronting and proactively resolving issues	
	Proficient in window-based software packages, project management and CRM systems	

OTHER REQUIREMENTS

- Successful candidates must pass a disclosure and barring security check.
- Willingness to work flexibly to meet the reasonable needs of the company.
- Commitment to working in accordance with the company's values.
- Self-sufficient in use of information and communications technology.
- Ability to self-manage a full and varied workload.
- Valid driving license and own transport. However, as an equal opportunity employer, we welcome applications from those who are able to make alternative, suitable travel arrangements.

This role description is not intended to be exhaustive in every respect, but rather to clearly define the fundamental purpose, responsibilities and dimensions for the role.

In addition to the contents of this role description, the post holder will be expected to undertake all other reasonable and related tasks allocated by line management.

Life Sciences Hub Wales Ltd acknowledges the importance of developing and growing its bilingual workforce and welcomes applications for any post from candidates who demonstrate their capability to work in both English and Welsh.

Life Sciences Hub Wales is an equal opportunities employer and positively encourages applications from suitably qualified and eligible candidates regardless of sex, race, disability, age, sexual orientation, gender reassignment, religion or belief, marital status, or pregnancy and maternity.